# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Achosion addasrwydd i ymarfer: pwerau i estyn gorchmynion interim** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Polisi y Gweithlu** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Pennaeth yr adran, Laurie Hayward**<br><br>**PBC gyda chyfrifoldeb ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Alistair Davey** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS** |
| **Dyddiad Dechrau:** | |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Y cefndir

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud ag adran 19 o Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil"), sy'n diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Mae Rhannau 2 i 8 o Ddeddf 2016 ac Atodlen 2 iddi yn darparu'r sail y mae Gofal Cymdeithasol Cymru ('GCC') wedi'i sefydlu arni ac yn ymgymryd â swyddogaethau mewn perthynas â chofrestru, rheoleiddio a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol.

Nod y diwygiadau arfaethedig hyn i'r gweithlu yw gwneud newidiadau gweithredol a gweinyddol i Ddeddf 2016 i egluro neu addasu darpariaethau presennol a fydd yn cefnogi GCC yn ei rôl fel rheoleiddiwr y gweithlu ac sy'n gyfan gwbl weinyddol eu natur.

### Effaith

Mae adran 19 o'r Bil yn diwygio'r darpariaethau yn adran 147 o Ddeddf 2016, sy'n ymwneud â gwneud gorchmynion interim a'u hadolygu.

Mae gorchmynion interim yn galluogi cyfyngiadau dros dro i gael eu gorfodi ar berson cofrestredig tra bo ymchwiliadau'n cael eu cynnal i honiadau a wneir yn erbyn yr unigolyn hwnnw. Mae dau fath o orchmynion interim - sef gorchymyn cofrestru amodol interim, sy'n caniatáu i berson barhau i ymarfer ond mewn ffordd gyfyngedig; a gorchymyn atal interim, sy'n atal y person cofrestredig rhag ymarfer o gwbl hyd nes y bydd penderfyniad terfynol ar ei achos.

Nid oes gan baneli'r pŵer ar hyn o bryd i estyn gorchymyn interim. Os bydd angen estyn gorchymyn interim, mae'n ofynnol i GCC wneud cais i'r tribiwnlys haen gyntaf (y tribiwnlys) i ofyn am estyniad. Bydd y Bil yn diwygio adran 147 o Ddeddf 2016 i roi'r pŵer i banel (panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer y cyflwynir trafodion y gorchymyn interim ger ei fron) i estyn gorchymyn interim am hyd at uchafswm o 18 mis o'r dyddiad y'i gwnaed gyntaf, heb fod angen cais i'r tribiwnlys. Bydd hyn yn rhoi'r pŵer i banel i gymryd camau cymesur, gan sicrhau bod gorchmynion interim yn parhau i fod ar waith am y cyfnod gofynnol ac osgoi unrhyw straen a/neu faich gweinyddol/cost i'r person cofrestredig a'r cyflogwr a allai ddeillio o wneud cais i'r tribiwnlys. Bydd hefyd yn lleihau nifer y ceisiadau i estyn gorchymyn interim a wneir i'r tribiwnlys, ac o ganlyniad yn lleihau'r baich gweinyddol a chost i reoleiddiwr y gweithlu a'r gwasanaeth tribiwnlysoedd.

**Hawliau Plant**

Mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r Confensiwn yn diogelu hawliau dynol plant hyd at 18 oed.

Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar roi'r pŵer i baneli Gofal Cymdeithasol Cymru i estyn gorchmynion dros dro am hyd at gyfnod o 18 mis, heb orfod gwneud cais i'r tribiwnlys cyn y cyfnod hwn.  Gall y cynigion gael effaith ar bobl rhwng 16 a 18 oed sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, neu sydd ar leoliadau neu gynlluniau prentisiaeth ac a allai fod ar fin mynd trwy weithdrefn addasrwydd i ymarfer neu sy'n mynd drwy weithdrefn addasrwydd i ymarfer.  Bydd yr effaith bosibl ar y gweithwyr hyn yn gadarnhaol, gan y bydd yn helpu i bwysleisio bod gan y system rywfaint o hyblygrwydd ac y gall gynnig cefnogaeth iddynt pe baent yn wynebu caledi neu banel addasrwydd i ymarfer.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynigion ac fe gafodd y dogfennau ymgynghori eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru ac roeddent yn cynnwys ffurflen ymateb y gellid ei chyflwyno drwy e-bost neu mewn copi caled.

Darparwyd pob fersiwn o'r ymgynghoriad ar y tudalennau gwe canlynol -

[Proposed changes to legislation on social care and continuing health care | GOV.WALES]

[Newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG | LLYW.CYMRU]

Dosbarthwyd manylion yr ymgynghoriad i amrywiaeth o randdeiliaid allweddol a chyrff cynrychioliadol, gan gynnwys pobl hŷn (h.y. Age Cymru), grwpiau plant (h.y. Voices From Care Cymru), grwpiau anabledd (h.y. Anabledd Cymru) a grwpiau lleiafrifol ac ethnig (h.y. Race Council Cymru) a Chomisiynydd y Gymraeg. Daeth sylwadau i law oddi wrth dros 190 o sefydliadau ond dim ond 50 o'r sefydliadau hyn a ymatebodd i'r cwestiynau ar y cynigion ar gyfer y gweithlu ac maent wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad o'r ymatebion.

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ymatebion ac fe'i rhannwyd ar ein gwefan yn https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-06/crynodeb-o-ymatebion.pdf

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

*Effeithiau cadarnhaol*

Caiff y cynigion effaith gadarnhaol ar y drefn reoleiddio ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan eu bod yn unioni rhai canlyniadau anfwriadol sydd wedi creu beichiau gweinyddol diangen ar y rheoleiddiwr, sef GCC. Gyda'r mân addasiadau hyn, ein nod yw rhoi i baneli GCC y mecanweithiau i adolygu ac estyn gorchymyn interim am hyd at uchafswm o 18 mis (o'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn gyntaf) heb fod angen gwneud cais i dribiwnlys haen gyntaf Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF). Bydd hyn yn arwain at arbed adnoddau i'r rheoleiddiwr a'r tribiwnlys, oherwydd y gostyngiad yn nifer y ceisiadau i'r tribiwnlys. Gellid ailfuddsoddi'r adnoddau hyn wedyn yn y drefn reoleiddio.

*Effeithiau negyddol*

Nid ydym yn rhag-weld y bydd unrhyw effaith negyddol yn sgil y newidiadau hyn, sydd wedi'u cynllunio i roi pwerau i GCC i wella'r system reoleiddio a symleiddio ei brosesau.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu gymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae ein hasesiadau effaith yn awgrymu y bydd y cynigion yn arwain at nifer o fanteision cadarnhaol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Disgwylir i staff cofrestredig gadw at God Ymarfer Proffesiynol sy'n cynnwys sicrhau bod camau gweithredu yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Pan fo unigolyn cofrestredig yn destun honiad o fethu â bodloni'r Cod, mae'n debygol y caiff ei osod o dan orchymyn interim sy'n ei atal o'i waith tra bo'r honiadau hyn yn destun ymchwiliad. Bydd y cynnig yn caniatáu i'r panel weithredu'n gymesur, gan roi'r pŵer iddo i adolygu ac estyn y gorchymyn interim am hyd at uchafswm o 18 mis, o'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn gyntaf. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw orchymyn interim yn cael ei roi ar waith am yr amser gofynnol i gwblhau'r ymchwiliad a lleihau'r straen a'r pryder sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath ar unigolion cofrestredig a'u cyflogwyr.

Mae'r cynnig yn gysylltiedig ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi proffil y gweithlu gofal cymdeithasol a'r sector yn ei gyfanrwydd. Drwy ddangos bod gennym weithlu cofrestredig sydd nid yn unig â sgiliau cymaradwy ond sydd hefyd yn cadw at God Ymarfer Proffesiynol fel eu cymheiriaid gofal iechyd, rydym yn dechrau newid canfyddiad y cyhoedd bod y rhain yn weithwyr heb sgiliau a chymwysterau. Drwy ddarparu llwybr gyrfa clir a phroffesiynol i'r gweithlu, rydym yn meithrin gweithlu sydd â mwy o foddhad yn ei waith ac a fydd yn gweld gwelliant yn y gwaith o gadw staff; a gwella cynaliadwyedd y sector, creu mwy o ddilyniant gofal a gwell cydnerthedd busnes. Gyda gwell cydnabyddiaeth o'r sgiliau cymaradwy rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gallwn fwrw ymlaen ag ymrwymiad "Cymru Iachach" tuag at integreiddio gwasanaethau yn well, gwell hyfforddi a datblygu a chryfhau'r cyfathrebu rhwng staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i adeiladu gwasanaethau gofal a chymorth mwy cadarn at y dyfodol.

Bydd y camau hyn yn ein helpu i barhau i gyflawni nifer o'r saith nod llesiant (Cymru Gydnerth, Cymru Lewyrchus, Cymru Fwy Cyfartal a Chymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu) ond yn bwysicach na hynny mae ganddynt fanteision hirach i unigolion a busnesau. O ran yr effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd, byddwn yn codi'r rhain gyda rheoleiddiwr y gweithlu, sef GCC, ac yn gweithio gyda hwy i hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac i greu gweithlu sy'n adlewyrchu cymdeithas.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GCC i fonitro a gwerthuso cynnydd y newidiadau hyn a phrofiadau gweithwyr o'r prosesau diwygiedig. Rydym hefyd yn dal mewn cysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys undebau a chynrychiolwyr darparwyr, lle y trafodir materion yn ymwneud â chofrestru ac addasrwydd i ymarfer gan gynnwys ei effaith ar ddarparwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol.

*Pa gynlluniau sydd ar waith i wneud gwaith adolygu a gwerthuso ôl-weithredu?*

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i oruchwylio'r gwaith o fonitro a gwerthuso ein cynigion.  Byddwn yn gweithio gyda GCC i gyflwyno'r mecanweithiau hyn ac i ddeall effeithiau cofrestru gorfodol ar y gweithlu, recriwtio a chadw staff.